Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)

Aelod Bwrdd ar gyfer Cymru a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Dyddiad cau: Hanner dydd, dydd Iau 13 Chwefror 2020

Cyfeirnod: VAC 2020 Cymru

Regulated by The Commissioner for Public Appointments

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad gan Heather Hancock 3

Adran 1: Y Rôl

1.1 Swyddogaethau Aelodau'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru 5

1.2 Cefndir yr Asiantaeth Safonau Bwyd 11

1.3 Cylch Gorchwyl 12

Adran 2: Sut i wneud cais

2.1 Gwneud cais 14

2.2 Y broses ddethol 17

2.3 Anghymhwyso rhag Penodi/Meini Prawf Cymhwyster 20

2.4 Sut y byddwn ni'n rheoli eich gwybodaeth bersonol 21

Cyflwyniad gan Heather Hancock

Rwy'n falch iawn eich bod chi'n ystyried gwneud cais am rôl anweithredol gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB).

Mae'r ASB yn adran reoleiddio, sy'n gyfrifol yn ôl y gyfraith am ddiogelu iechyd y cyhoedd, a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Ein prif nod yw sicrhau bod y cyhoedd yn gallu ymddiried bod eu bwyd yn ddiogel ac yn ddilys. Rydym ni'n gweithredu'n agored, yn gyhoeddus, i gynnal ymddiriedaeth a hyder, ac yn cael ein harwain gan wyddoniaeth a thystiolaeth. Rydym ni'n rhoi iechyd y cyhoedd a defnyddwyr yn gyntaf. Mae'r Bwrdd yn gosod y blaenoriaethau strategol ar gyfer cyflawni dibenion statudol yr ASB, yn cytuno ar fesurau ar gyfer y canlyniadau yr ydym ni'n ceisio eu cyflawni, ac yn gosod targedau ar gyfer y canlyniadau hyn i fesur ein cynnydd. Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau mawr ar iechyd y cyhoedd a materion rheoliadol ac yn sicrhau bod rhaglenni a chynlluniau yn cael eu cyflenwi. Mae Bwrdd yr ASB wrthi'n pennu ei flaenoriaethau strategol ar gyfer 2020-2023, gyda ffocws clir ar Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE), her gynyddol gorsensitifrwydd i fwyd, a moderneiddio'r drefn reoleiddio.

Mae gennym ni statws anarferol fel Adran Llywodraeth anweinidogol, sy'n gwasanaethu Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae hynny'n rhoi lefel uchel o annibyniaeth i'r Bwrdd, ac rydym ni'n gweithredu'n rhydd rhag unrhyw gyfeiriad a rheolaeth wleidyddol. Rydym ni'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'n busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Seneddol ein hunain, er bod y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd perthnasol yn ymdrin â deddfwriaeth a materion 'llawr y Tŷ'. Mae'r ASB yn cydweithio'n agos â'r corff cyfatebol yn yr Alban, Safonau Bwyd yr Alban. Mae gennym ni gyllideb gymedrol gan Drysorlys ei Mawrhydi a Gweinyddiaethau Datganoledig yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Rydym ni'n adennill rhai costau drwy godi tâl am wasanaethau rheoleiddio i fusnesau, ac yn cyflogi tua 1,200 o weision sifil yn uniongyrchol.

Yr ASB yw awdurdod cymwys y Deyrnas Unedig (DU) ar gyfer diogelwch bwyd, ac rydym ni'n arwain ar hyn ar ran y DU, tra'n bod ni dal yn rhan o'r UE. Mae'r ASB wedi gweithio'n galed i sicrhau bod trefn reoleiddio gyflawn ac effeithiol ar waith ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid ar y diwrnod ymadael. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu neu hybu swyddogaethau a gallu asesu risg domestig a rheoli risg, i ddisodli'r rhai a ddarperir ar lefel yr UE. Ond ni fydd hanfodion pwysig yn newid: byddwn ni'n parhau i fod yn annibynnol; mae'r ASB a'r tair Llywodraeth rydym ni'n gweithio â nhw wedi ymrwymo'n gyhoeddus i gynnal ein safonau bwyd cyfredol; byddwn ni'n cynnal ein safle byd-eang dylanwadol ar ddiogelwch a rheoleiddio bwyd.

Ochr yn ochr â'n paratoadau ar gyfer Ymadael â'r UE, rydym ni wedi bod yn gweithio i drawsnewid y drefn reoleiddio ar gyfer y 600,000+ o fusnesau bwyd yn y DU. Bydd y system fodern, ystwyth a seiliedig ar risg yn defnyddio rhagor o ddata a thechnoleg ac yn eu defnyddio'n well, yn cymryd rhagor o berchnogaeth ar osod safonau, ac yn galluogi adnoddau i gael eu targedu'n well at fusnesau bwyd a materion sy'n peri'r risg fwyaf i ddefnyddwyr. Yn ystod y 18 mis nesaf, byddwn ni'n cwblhau'r model hwn ac yn gweithredu elfennau allweddol sydd eisoes ar y gweill.

Mae’r Bwrdd yn llawn brwdfrydedd wrth ystyried yr heriau a'r cyfleoedd sydd ar y gweill. Nod yr ASB yw cael ei hystyried yn rheoleiddiwr gwych, atebol a modern. Os byddwch chi’n ymuno â ni, bydd eich cyfraniad yn cael effaith ar iechyd ac ansawdd bywyd pawb ledled y wlad.

Yn y pecyn hwn mae gwybodaeth ychwanegol am yr ASB, manylion am y rôl ar y Bwrdd, yn ogystal â manylion am sut y gallwch chi wneud cais. Edrychaf ymlaen at weld eich cais.

Heather Hancock LVO DL

Cadeirydd, Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Adran 1: Y Rôl

1.1 Swyddogaethau Aelod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru

Cyflwyniad

Mae Gweinidogion yn dymuno penodi i Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB): Aelod Anweithredol dros Gymru. Mae'r Aelod Anweithredol dros Gymru hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC).

Mae Bwrdd yr ASB yn cwrdd chwe gwaith y flwyddyn: pedwar cyfarfod Bwrdd a chyfarfodydd pwyllgor Busnes, pob un am ddeuddydd; a dau ddigwyddiad strategol neu sesiynau cwrdd i ffwrdd, am ddeuddydd. Yn ogystal, mae disgwyl i aelodau'r Bwrdd fod yn bresennol yn nerbyniad Seneddol blynyddol yr ASB. Mae cyfle i fynd i ddigwyddiadau ad hoc fel symposias gwyddoniaeth, ac o bryd i'w gilydd gellir gofyn iddynt ymuno â gweithgorau tymor byr neu dimau adolygu ar bynciau penodol (fel arfer ochr yn ochr ag arbenigwyr allanol). Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Archwilio a Risg yn cyfarfod wyneb yn wyneb bedair gwaith y flwyddyn, a thrwy tele-gynhadledd unwaith y flwyddyn.

Pwrpas Cadeirydd WFAC yw cadeirio WFAC a sicrhau bod y Pwyllgor yn bodloni'r gofyniad a roddir ar y Pwyllgorau Cynghori gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999, i roi cyngor neu wybodaeth i'r ASB am faterion yn ymwneud â'i swyddogaethau (yn enwedig materion sy'n effeithio ar Gymru neu'n perthyn fel arall iddi). Mae Cadeirydd WFAC yn atebol i Gadeirydd yr ASB.

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

Mae Aelod Bwrdd yr ASB yng Nghymru yn gyfrifol am:

- sicrhau bod yr ASB yn cyflawni ei dyletswyddau yn unol â'r gofyniad i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd;
- gosod ac atgyfnerthu gwerthoedd craidd yr ASB trwy ddatblygu a monitro amcanion, cynlluniau a pholisïau strategol.
- cynrychioli'r ASB a'i gwerthoedd;
- chwarae rhan effeithiol yng nghyfarfodydd, trafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd;
- monitro perfformiad y Weithrediaeth o ran cwrdd ag amcanion a thargedau cytunedig, gan gynnwys darpariaeth gwasanaethau; gwelliant parhaus; perfformiad ariannol, a rheoli risg;
- cynorthwyo â phenodi'r Prif Weithredwr;
- cymryd rhan fel aelod neu gadeirio un neu fwy o Bwyllgorau'r Bwrdd: Busnes, ac Archwilio a Sicrwydd Risg;

- gweithredu o blaid budd y cyhoedd bob amser, nid fel cynrychiolydd ar ran buddiannau unrhyw sector penodol, a heb ystyried unrhyw fuddiannau personol;
- cynghori Bwrdd yr ASB ar faterion sy'n ymwneud â Chymru; a
- ymrwymo hyd at 20 diwrnod y flwyddyn i'w cyfrifoldebau ASB. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau; diwrnodau cwrdd i ffwrdd y Bwrdd, hyfforddiant a gweithdai; Digwyddiadau'r ASB; teithio i gyfarfodydd ledled y DU; a pharatoi trylwyr ar gyfer busnes y Bwrdd.

Mae aelodau'r Bwrdd yn cael cyngor a chefnogaeth gan y Weithrediaeth mewn perthynas â'u dyletswyddau a rhoddir gwybodaeth gefndir iddynt allu cyflawni eu dyletswyddau. Mae ysgrifenyddiaeth benodol i gynorthwyo'r Bwrdd. Nid yw'r Bwrdd yn defnyddio papur yn ei gyfarfodydd.

Yn ogystal â chyfrifoldebau aelod y Bwrdd, dyma gyfrifoldebau Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru:

- gwasanaethu fel aelod WFAC a chadeirio cyfarfodydd mewn modd sy'n hwyluso cyfraniad effeithiol gan aelodau'r Pwyllgor trwy greu amgylchedd lle gallan nhw rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd;
- cynllunio busnes y cyfarfodydd Pwyllgor gyda Chyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru, gan gynnwys codi materion yn rhagweithiol i'r Pwyllgor eu trafod
- arwain WFAC ar ddarparu cyngor neu wybodaeth i'r ASB am faterion yn gysylltiedig â'i swyddogaethau, yn enwedig y rhai sy'n berthnasol i Gymru;
- annog WFAC i ystyried llais defnyddwyr Cymru a chryfhau persbectif y defnyddiwr, mewn perthynas â materion allweddol y mae Bwrdd yr ASB yn eu hystyried;
- cefnogi'r ASB wrth gyfathrebu â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru ac meithrin y perthnasoedd os oes angen er mwyn i'r Pwyllgor weithredu'n effeithiol;
- cynnal gwerthusiad o berfformiad aelodau'r Pwyllgor unwaith bob tymor;
- cynorthwyo i benodi Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru
- gweithredu er budd y cyhoedd bob amser, nid fel cynrychiolydd ar ran buddiannau unrhyw sector penodol, a heb ystyried unrhyw fuddiannau personol; a
- rhoi tua 15 diwrnod y flwyddyn i'r ASB yn ogystal ag unrhyw ymrwymiad amser fel Aelod Bwrdd, a theithio i gyfarfodydd ledled Cymru.

Meini Prawf Hanfodol

Nid yw aelodau'r Bwrdd yn cynrychioli diwydiant na sector penodol. Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer y rôl, rhaid i chi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol sydd wedi'u nodi isod.

- Y gallu i weithredu ar Fwrdd sefydliad cenedlaethol mawr, gyda dealltwriaeth glir o system lywodraethu effeithiol, cyfrifoldeb ar y cyd a her adeiladol.
- Y gallu i brofi bod gennych chi feddwl a phrofiad strategol, ac yn gallu helpu i lunio cyfeiriad strategol yr ASB.
- Sgiliau dadansoddi a gwneud penderfyniadau cryf, yn gallu pwyso a mesur tystiolaeth gymhleth ac egluro'r sail ar gyfer penderfyniad.
- Ymrwymiad i roi'r defnyddiwr yn gyntaf, gydag ymwybyddiaeth o fuddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd a sut mae'r system fwyd fyd-eang yn newid.
- Dealltwriaeth o'r dirwedd rhanddeiliaid mewn cysylltiad â bwyd, iechyd y cyhoedd a gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

ac o leiaf dau o'r meini prawf canlynol:

- Arbenigedd lefel uwch mewn iechyd y cyhoedd.
- Profiad lefel uwch mewn rheolaeth ariannol neu archwilio/sicrwydd, yn y sector cyhoeddus neu breifat.
- Arweinyddiaeth mewn amgylchedd technoleg neu ddata.
- Dealltwriaeth fanwl o'r sector bwyd, ar lefel y DU neu yn fyd-eang.
- Sgiliau Cymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd datblygu dwyieithrwydd mewn swyddi cyhoeddus yng Nghymru. Croesewir ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n dangos gallu i weithio yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r rhestr ganlynol o ofynion iaith yn cynrychioli asesiad gwrthrychol gan y corff recriwtio o'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen i gyflawni dyletswyddau'r swydd benodol hon.

- *Darllen – Gallu darllen a deall rhai geiriau ac ymadroddion sylfaenol*
- *Ysgrifennu – Gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar*
- *Deall – Gallu deall rhannau o sgyrsiau sylfaenol*
- *Llafar – Gallu cynnal sgwrs sylfaenol yn Gymraeg*

Yn ogystal â'r meini prawf uchod, bydd angen i Gadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru ddangos tystiolaeth eu bod yn gallu:

- cadeirio cyfarfodydd Bwrdd ar lefel uchel mewn unrhyw sector
- deall buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, yng Nghymru; a
- pheidio â chynhyrfu yn wyneb adfyd a gwrthwynebiad.

Tâl Cydnabyddiaeth

Telir cyfanswm o £14,000 y flwyddyn fel tâl cydnabyddiaeth am weithio tua 35 diwrnod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Bydd Aelod Anweithredol Cymru yn cael tâl cydnabyddiaeth o £8,000 y flwyddyn am weithio tua 20 diwrnod y flwyddyn.
- Mae Cadeirydd WFAC yn cael tâl cydnabyddiaeth o £6,000 y flwyddyn am weithio tua 15 diwrnod y flwyddyn.

- Mae'r tâl cydnabyddiaeth yn drethadwy, ac yn ddarostyngedig i gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Bydd y ddau beth hyn yn cael eu tynnu yn y ffynhonnell o dan TWE cyn i chi gael eich talu. Nid oes modd hawlio pensiwn ar dâl cydnabyddiaeth. Nid yw aelodau'r Bwrdd yn cael eu cyflogi gan yr ASB.

- Gallwch chi hawlio costau teithio a chynhaliaeth, sy'n codi fel rhan briodol ac angenrheidiol o gyflawni eich rôl a'ch cyfrifoldebau fel Dirprwy Gadeirydd neu Aelod Anweithredol o'r ASB, yn unol â pholisi teithio a chynhaliaeth a chyfraddau'r ASB. Gellir cael copi o'r polisi a'r cyfraddau gan yr ASB.

Ymrwymiad amser

Yr ymrwymiad amser ar gyfer Aelod Anweithredol Cymru yw 20 diwrnod y flwyddyn. Mae cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor ar ddyddiadau penodedig a chânt eu cynnal dros ddeuddydd yn olynol. Maent yn cynnwys aros dros nos a bod yn bresennol yng nghiniawau gweithio'r Bwrdd.

Yn ystod yr ychydig fisoedd cyntaf bydd gofyniad i gymryd rhan yn y rhaglen ymsefydlu strwythuredig a bydd hyn yn gofyn i chi ymrwymo i nifer o ddiwrnodau ychwanegol.

Bydd disgwyl i Gadeirydd WFAC ymrwymo i 15 diwrnod y flwyddyn. Mae WFAC yn cwrdd un ar ddeg gwaith y flwyddyn ar gyfer amryw gyfarfodydd agored â themâu, sesiynau cynllunio a chyfarfodydd Skype nad ydynt yn agored. Yn ogystal, mae disgwyl i aelodau'r Pwyllgor fynd i Sioe Brenhinol Cymru bob blwyddyn a digwyddiadau ad hoc.

Lleoliad

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd o amgylch Lloegr, ond o leiaf unwaith y flwyddyn cynhelir cyfarfod yng Nghymru neu yng Ngogledd Iwerddon.

Cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd WFAC yn swyddfa'r ASB yng Nghaerdydd. Weithiau cynhelir cyfarfodydd Pwyllgor mewn mannau eraill yng Nghymru.

Dyddiadau Cyfarfodydd y Bwrdd 2020

- Dydd Mawrth 10 a dydd Mercher 11 Mawrth 2020 (Clive House, Llundain)
- Dydd Mawrth 16 a dydd Mercher 17 Mehefin 2020 (Lloegr, union leoliad i'w gadarnhau)
- Dydd Mawrth 15 a dydd Mercher 16 Medi 2020 (Cymru, union leoliad i'w gadarnhau)
- Dydd Llun 12 a dydd Mawrth 13 Hydref 2020 (Lloegr, union leoliad i'w gadarnhau)
- Dydd Mawrth 1 a dydd Mercher 2 Rhagfyr 2020 (Lloegr, union leoliad i'w gadarnhau)

Dyddiadau Cyfarfodydd WFAC 2020

- 5 Mawrth
- 23 Ebrill
- 11 Mehefin
- 16 Gorffennaf
- 10 Medi
- 22 Hydref
- 26 Tachwedd

Hyd y penodiad:

Gweinidogion Cymru sy'n pennu hyd y penodiad, a fydd hyd at 3 blynedd.

Cyn penodi

Mae penodiad ail dymhorau tri aelod o WFAC yn dod i ben ar 30 Mehefin 2020. Gan mai dyma ddiwedd eu hail dymor, ni ellir eu hailbenodi.

Mae Cadeirydd yr ASB yn awyddus i Gadeirydd newydd WFAC fod yn rhan o'r ymgyrch i recriwtio'r tri aelod newydd. Felly cyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ddechrau fel aelod o Fwrdd Cymru a Chadeirydd WFAC ar 1 Gorffennaf 2020, bydd ef neu hi'n gwasanaethu fel aelod WFAC am gyfnod byr tan 30 Mehefin 2020. Bydd hyn yn galluogi Cadeirydd presennol WFAC a'r Cadeirydd newydd i eistedd ar y Panel Dethol a fydd yn penodi aelodau newydd WFAC.

Rhwng y penodiad a 30 Mehefin 2020, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael tâl cydnabyddiaeth aelod WFAC. Mae aelodau WFAC yn cael cydnabyddiaeth o £3,885 am 21 diwrnod y flwyddyn. Telir hwn pro-rata am y cyfnod penodi tan 30 Mehefin 2020. O 1 Gorffennaf 2020, bydd y tâl cydnabyddiaeth fel aelod o Fwrdd Cymru a Chadeirydd WFAC.

Atebolrwydd

Mae Bwrdd yr ASB yn atebol, trwy Weinidogion Iechyd i: Senedd San Steffan; Llywodraeth Cymru; a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Cadeirydd yr ASB sydd fel arfer yn cyfathrebu â'r Seneddau a'r Gweinidogion. Mae aelodau'r Bwrdd yn adrodd ar werthuso yn ffurfiol i Gadeirydd yr ASB.

Mae Bwrdd yr ASB yn gorff gwneud penderfyniadau agored a thryloyw. Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn gyhoeddus, cânt eu ffrydio'n fyw a'u cofnodi, a llunir polisïau a phenderfyniadau mewn sesiwn agored. Mae Bwrdd yr ASB yn sefydliad di-bapur.

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Aelod Anweithredol Cymru a Chadeirydd WFAC yn ogystal â rôl yr ASB, cysylltwch ag:

Enw: Ann Stirling
Ffôn: 07970 401448
E-bost: ann.stirling@food.gov.uk

1.2 Cefndir yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Rôl statudol yr ASB yw diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Ers ei sefydlu ym mis Ebrill 2000, mae wedi creu argraff fel math newydd o awdurdod cyhoeddus – un annibynnol, rhagweithiol, egnïol, agored ynghylch polisi a gonest ynghylch peryglon.

Arweinir yr ASB gan Fwrdd o hyd at o 12 aelodau anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd (yn ymarferol, ers creu Safonau Bwyd yr Alban yn 2014, mae 10 aelod wedi bod ar y bwrdd, roedd dwy o'r rolau bwrdd hyn wedi'u neilltuo i benodiadau gan lywodraeth yr Alban). Ar y cyd, mae aelodau'r Bwrdd yn rhannu cyfrifoldeb dros yr holl ASB. Caiff y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithredu ar y cyd â'r Gweinidogion priodol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Caiff un aelod o'r Bwrdd ei benodi gan Weinidogion Cymru, ac un aelod gan Adran Iechyd Gogledd Iwerddon. Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, ceir Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd sy'n gweithredu fel llwybr ar gyfer cyfleu i'r Bwrdd unrhyw wybodaeth a chyngor sy'n berthnasol i fuddiannau'r ASB yn eu gwledydd unigol. Mae aelod o'r Bwrdd yn cadeirio pob un o'r Pwyllgorau hyn. Caiff yr aelodau o Fwrdd yr ASB sy'n weddill eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r awdurdodau priodol yn ymgynghori â'i gilydd cyn gwneud y penodiadau hyn. Nid oes unrhyw gymwysterau daearyddol penodol ar gyfer y rolau hyn.

Mae cylch gwaith yr ASB yn cynnwys rheoliadau a pholisi bwyd a diogelwch bwyd ar draws yr holl gadwyn fwyd (o'r 'fferm i'r fforc'). Mae'n gweithio i ddiogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch bwyd a thrwy gyflwyno gwybodaeth onest ac eglur. Mae patrwm cymhleth o gyfrifoldebau dros bolisi a chyflenwi ar ddiogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, maeth, a labelu a chyfansoddiad bwyd nad yw'n ymwneud â diogelwch, ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu bod gan yr ASB gylch gwaith ychydig yn wahanol ym mhob gwlad.

Mae'r ASB hefyd yn awdurdod gorfodi. Mae rhai o staff yr ASB yn gweithio mewn ffatrïoedd cig i wirio bod gofynion y rheoliadau, gan gynnwys safonau lles anifeiliaid, yn cael eu bodloni. Mae'r ASB yn cydweithio'n agos â Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a Swyddogion Safonau Masnach awdurdodau lleol mewn 387 o awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau bod bwyd o'r 600,000 a mwy o safleoedd bwyd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ddiogel ac wedi'i labelu'n gywir.

Mae'r Asiantaeth yn gweithio'n agos ag amrywiaeth eang iawn o grwpiau rhanddeiliaid i wella diogelwch bwyd ym mhob cam o'r gadwyn fwyd. Mae'r ASB wedi cael cydnabyddiaeth am adfer ymddiriedaeth defnyddwyr y DU yn y ffordd y caiff diogelwch bwyd ei reoleiddio.

Darllen pellach: Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr ASB ar gyfer 2018/19 ar gael drwy:

https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa-annual-report-accounts-2018-19-consolidated.pdf

1.3 Cylch Gorchwyl

Ym mis Medi 2018, adolygodd Bwrdd yr ASB ei Chylch Gorchwyl a'i mesurau llywodraethu yn fanwl, gan ragweld y newidiadau a fydd yn deillio o ymadael â'r UE.

Mae cylch gorchwyl llawn a rheolau sefydlog y Bwrdd a'i bwyllgorau yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac maent i'w gweld yma:

https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/ein-bwrdd

I grynhoi, mae'r Bwrdd:

- yn gosod strategaeth, blaenoriaethau strategol a chanlyniadau strategol;
- yn nodi a monitro risg strategol, enw da a chorfforaethol; yn pennu archwaeth risg yr ASB;
- yn gwneud penderfyniadau mawr ar y fframwaith rheoleiddio a rheoli;
- yn gwneud penderfyniadau mawr ar bolisi a phrif faterion egwyddor;
- yn llywio cyngor i Weinidogion, ac ar faterion mwy amlwg yn darparu cyngor i Weinidogion;
- â chyfrifoldeb ar y cyd am weithgareddau'r ASB â'r ffordd y mae'n cyflawni ei dyletswyddau statudol; a
- trwy'r Cadeirydd, yn penodi'r Prif Swyddog Gweithredol ac yn ei dal yn atebol.

Mae Bwrdd yr ASB yn gyfrifol am gyfeiriad strategol cyffredinol, gan gynnwys sicrhau bod yr ASB yn cyflawni ei goblygiadau cyfreithiol fel bod ei phenderfyniadau neu ei gweithrediadau yn rhoi ystyriaeth briodol i gyngor gwyddonol, buddiannau'r defnyddiwr a ffactorau perthnasol eraill. Mae'r Bwrdd yn elwa o gyngor annibynnol ei Brif Gynghorydd Gwyddonol, a chyfres o bwyllgorau cynghori gan gynnwys y Cyngor Gwyddoniaeth, Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd Cymru a Gogledd Iwerddon, a sawl Pwyllgor Cynghori Gwyddonol arbenigol.

Cyfarfodydd cyhoeddus

Fel rhan o ymrwymiad yr ASB i fod yn agored ac yn dryloyw, mae cyfarfodydd y Bwrdd yn rhai agored yn bennaf. Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd neu'r wasg sydd â diddordeb ddod i'r cyfarfodydd. Caiff y cyfarfodydd hyn eu darlledu'n fyw ar y rhyngrwyd a gellir eu gwylio yn ôl y galw drwy:

https://registration.livegroup.co.uk/fsaboardmeetings/Downloads/.

Mae'r ASB yn cyhoeddi agendâu, papurau a phenderfyniadau'r Bwrdd fel ei bod yn glir i'r cyhoedd a phawb sydd â diddordeb ar beth y mae wedi selio ei

benderfyniadau a pha dystiolaeth y mae wedi'i gymryd i ystyriaeth wrth ddod i'r penderfyniadau hynny.

Mae amgylchiadau cyfyngedig iawn lle na ellir ystyried rhywbeth yn gyhoeddus. Er enghraifft, lle mae'r ASB yn arwain ar drafodaethau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar faterion cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid rhyngwladol e.e Ewrop, caiff y trafodaethau ar y dull i'w gymryd yn y trafodaethau hynny eu cynnal yn gyfrinachol.

Adran 2: Sut i wneud cais

2.1 Gwneud cais

Diolch am eich diddordeb yn rôl Aelod Anweithredol yr ASB yng Nghymru a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru.

I wneud cais, anfonwch eich CV, llythyr ategol a ffurflen monitro amrywiaeth dros e-bost. Dyma'r e-bost ar gyfer anfon eich cais: Board.Sec@food.gov.uk Cofiwch ddyfynnu'r cyfeirnod: VAC 2020 Cymru.

Os nad oes modd i chi wneud cais trwy e-bost, gallwch chi anfon eich cais trwy'r post at: Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 7, Clive House, 70 Petty France, Llundain SW1H 9EX

Rhaid i'r ceisiadau ddod i law erbyn **hanner dydd, dydd Iau 13 Chwefror 2020.**

Wrth wneud cais, nodwch y canlynol:

Llythyr ategol

Eich llythyr ategol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Bydd o fudd i'r Panel Asesu os gallwch chi gysylltu'r dystiolaeth benodol rydych chi'n ei darparu â meini prawf y rôl. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf. Ysgrifennwch pob acronym yn llawn yn gyntaf.

Nodwch eich enw llawn a'r cyfeirnod cyfatebol ar gyfer y swydd yn glir ar frig eich llythyr.

Ni ddylai'r llythyr fod mwy na dwy dudalen, a theipiwch neu ysgrifennwch yn glir mewn inc du.

Datgan buddiannau a sicrhau hyder y cyhoedd

Os oes gennych chi unrhyw fuddiannau busnes neu bersonol a allai fod yn berthnasol i waith yr ASB ac a allai arwain at wrthdaro buddiannau go iawn neu y gellir eu hystyried yn wrthdaro buddiannau pe byddech yn cael eich penodi, rhowch fanylion yn eich llythyr ategol.

Os byddwch chi'n cael eich penodi, bydd disgwyl i chi hefyd ddatgan y buddiannau wrth gael eich penodi. Byddwn ni yna'n nodi'r rhain ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus a sicrhau hyder y cyhoedd

O ystyried natur penodiadau cyhoeddus, mae'n bwysig bod y rheiny a benodir fel aelodau o gyrff cyhoeddus yn cynnal hyder y cyhoedd a'r Llywodraeth. Os

oes unrhyw faterion yn eich hanes personol neu broffesiynol y gellid eu camddehongli, a allai achosi embaras i Weinidogion neu'r ASB neu beryglu hyder y cyhoedd yn ehangach, mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn rhoi gwybod amdanynt i'r Panel Asesu. Gall y panel archwilio unrhyw faterion o'r fath gyda chi cyn iddynt wneud argymhelliad ar yr penodiad.

Gallai methu â datgelu gwybodaeth o'r fath arwain at derfynu penodiad. Hefyd, cyfeiriwch at yr adran Meini Prawf Cymhwyster ar gyfer penodi yn Adran 2.3.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys:

- Eich enw llawn, eich teitl, eich cyfeiriad cartref, eich rhifau ffôn cyswllt personol (ffôn y tŷ a ffôn symudol) a'ch cyfeiriad e-bost personol
- Manylion cyswllt ar gyfer dau ganolwr a fydd yn cefnogi'ch cais. Dylai un canolwr fod yn unigolyn yr ydych/yr oeddech yn atebol iddo ef neu iddi hi yn eich penodiad neu'ch cyflogaeth gyfredol/ddiweddaraf. Nodwch berthynas pob canolwr â chi. Byddwn ni'n gofyn am eirdaon ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer cyn y cyfweliad
- Manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Ffurflen fonitro

Ewch ati i lenwi'r ffurflen fonitro. Ni fydd y Panel Asesu Cynghorol sy'n asesu eich cais yn gweld yr wybodaeth monitro amrywiaeth.

Os cewch eich penodi i'r rôl hon, nodwch y bydd unrhyw weithgarwch gwleidyddol rydych chi'n ei ddatgan yn cael ei gyhoeddi yn unol â'r Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad

Mae'r ASB yn gweithredu Cynllun Gwarantu Cyfweliad i bobl ag anableddau. Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn diffinio bod person yn anabl os oes ganddynt nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith anffafriol sylweddol a hirdymor ar allu'r person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad, bydd ymgeisydd yn cael ei ddewis ar gyfer cyfweliad os ydynt yn bodloni'r **meini prawf hanfodo**l ar gyfer y swydd.

Os ydych am wneud cais o dan y Cynllun hwn, ewch ati i lenwi'r ffurflen a'i dychwelyd gyda'ch cais.

Byddwn ni'n cydnabod pob cais dros e-bost ar ôl y dyddiad cau.

Manylion Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Enw: Nicola Jenkins
Ffôn: 07855 514603
E-bost: nicola.jenkins@food.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am rôl yr Aelod dros Gymru a Chadeirydd WFAC yn ogystal â rôl yr Asiantaeth Safonau Bwyd, cysylltwch ag:

Enw: Ann Stirling
Ffôn: 07970 401448
E-bost: ann.stirling@food.gov.uk

Cofiwch ddyfynnu'r cyfeirnod 'VAC 2020 Cymru' ar bob gohebiaeth.

Os byddwch chi'n dewis gwneud cais, hoffem ddiolch i chi ymlaen llaw am eich amser a'ch ymdrech.

2.2 Y Broses Ddethol

Bydd yr ASB yn delio â'ch cais cyn gynted â phosibl ac yn rhoi gwybod i chi beth yw'r amserlen debygol ar bob cam.

Amserlen

- Dyddiad cau: Hanner dydd, dydd Iau 13 Chwefror
- Llunio rhestr fer: 19 Chwefror 2020
- Cynnal cyfweliadau: 24 Mawrth 2020

Y panel dethol fydd:

- Heather Hancock – Cadeirydd yr ASB (Cadeirydd y Panel)
- Cynrychiolydd wedi'i enwebu gan Weinidogion Cymru
- Aelod annibynnol o'r Panel

Mae'r Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i holl aelodau'r Panel Asesu Cynghorol ddatgan unrhyw weithgarwch gwleidyddol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae holl aelodau'r panel wedi datgan nad ydyn nhw wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch gwleidyddol yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:

- Bydd y Panel Dethol yn asesu CV a datganiad ategol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y Panel Dethol yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.
- Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r Panel Dethol i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.
- Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r Panel Dethol yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych chi wedi gwneud cais o dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad a'ch bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol, cewch eich gwahodd i gyfweliad hefyd.
- Os cewch eich gwahodd i gyfweliad a'ch bod yn methu dod ar y dyddiad penodol, dim ond yn ôl disgresiwn y Panel Dethol y gellir cynnig dyddiad arall.

- Bydd y Tîm Penodiadau yn anfon e-bost atoch chi i roi gwybod a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd.
- Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, efallai y bydd y Panel Dethol yn eich gwahodd i wneud cyflwyniad byr ar ddechrau'r cyfweliad a bydd yn mynd ymlaen i'ch cwestiynu am eich sgiliau a'ch profiad, gan gynnwys gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych chi'n bodloni'r meini prawf a nodwyd ar gyfer y swydd.
- Bydd y Panel Dethol hefyd yn archwilio gydag ymgeiswyr unrhyw wrthdaro buddiannau posibl neu unrhyw faterion eraill sy'n codi o hanes personol a phroffesiynol ymgeisydd a allai effeithio ar benderfyniad penodi (gweler adran 2.1 i gael manylion pellach).
- Bydd yr ymgeiswyr yn ôl y panel sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall Gweinidogion ddewis cyfarfod ag ymgeiswyr ar y rhestr fer, cyn neu ar ôl y cyfweliad, cyn gwneud penderfyniad. Felly dylai ymgeiswyr fod yn barod am fwlch amser byr rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad terfynol ar y penodiad. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael eu diweddaru am gynnydd.
- Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael llythyr gan Weinidogion yn eu penodi'n Aelod o ASB Cymru a Chadeirydd WFAC, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.
- Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweliad, bydd y Tîm Penodiadau yn rhoi gwybod i chi. Rydym ni'n gwerthfawrogi bod ymgeisio am rolau yn gofyn am lawer o amser ac ymdrech, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu â nhw i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.
- I gael rhagor o wybodaeth am sut y byddwn ni'n rheoli'r wybodaeth bersonol rydych wedi'i darparu i ni trwy'ch cais, gweler Adran 2.4.

Ymholiadau

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am eich cais, cysylltwch â: Nicola Jenkins drwy anfon e-bost at: nicola.jenkins@food.gov.uk

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus, sydd i'w weld drwy: https://www.gov.uk/government/publications/board-members-of-public-bodies-code-of-conduct

Yn ogystal, bydd gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymarfer i Aelodau'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'r ddogfen hon ar gael drwy:

https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/board-code-of-conduct%20%281%29.pdf

Amrywiaeth a chyfle cyfartal

Mae'r ASB yn gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo amrywiaeth ac yn annog ceisiadau o bob rhan o'r gymuned.

Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus

Mae'r Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet, yn nodi'r egwyddorion a ddylai fod yn sail i bob penodiad cyhoeddus. Gellir gweld y Cod Llywodraethu yma: https://www.gov.uk/government/publications/governance-code-for-public-appointments .

Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus sy'n rheoleiddio penodiadau cyhoeddus yn erbyn gofynion y Cod Llywodraethu. Mae'r Comisiynydd yn rhoi sicrwydd annibynnol bod penodiadau cyhoeddus yn cael eu gwneud yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod. Penodir y Comisiynydd gan y Frenhines ac mae'n annibynnol ar y Llywodraeth a'r Gwasanaeth Sifil. Mae rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd ar gael drwy http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod yr ASB yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych chi unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â Jo Bushnell: jo.bushnell@food.gov.uk

Os ydych chi dal yn anfodlon ar ôl cael ymateb cynhwysfawr gan yr Adran, gallwch chi ysgrifennu at y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus:

Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

1 Horse Guards Road Llundain SW1A 2HQ

Ffôn: 0207 271 8938
E-bost: publicappointments@csc.gsi.gov.uk

2.3 Anghymhwyso rhag Penodi/Meini Prawf Cymhwyster

Anghymhwyso rhag penodi

Mae yna amgylchiadau lle na chaniateir ystyried penodi unigolyn.

- Yn Rhan II Atodlen 1 Deddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin M1 1975 (cyrff y mae eu haelodau wedi'u anghymhwyso), mae'n rhaid mewnosod y geiriau "Yr Asiantaeth Safonau Bwyd" yn y man priodol.
- Yn Rhan II Atodlen 1 Deddf Anghymhwyso Cynulliad Gogledd Iwerddon M1 1975 (cyrff y mae eu haelodau wedi'u gwahardd), mae'n rhaid mewnosod y geiriau "Yr Asiantaeth Safonau Bwyd" yn y man priodol.

I gael rhagor o wybodaeth am y meini prawf gwahardd, darllenwch y ddogfen lawn drwy: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1999/28/contents

2.4 Sut y byddwn ni’n rheoli eich gwybodaeth bersonol

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Ni fyddwch chi’n cael post diofyn, ar bapur na’n electronig o ganlyniad i anfon unrhyw wybodaeth bersonol at yr ASB. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo i drydydd partïon at ddibenion masnachol.

Pan fyddwn ni’n gofyn i chi am wybodaeth bersonol, rydym ni’n addo y byddwn ni’n:

- gofyn am yr hyn sydd ei angen arnom yn unig, a pheidio â chasglu gormod o wybodaeth neu wybodaeth amherthnasol
- sicrhau eich bod chi'n gwybod pam mae angen yr wybodaeth hon arnom;
- diogelu’r wybodaeth a lle bo’n bosibl, sicrhau nad oes unrhyw un nad oes ganddynt yr hawl yn cael mynediad ati;
- sicrhau eich bod chi'n ymwybodol o’ch dewisiadau chi o ran rhannu gwybodaeth â ni;
- sicrhau nad ydym ni’n cadw’r wybodaeth yn hirach na sydd ei hangen;
- dim ond yn defnyddio'ch gwybodaeth at y dibenion yr ydych chi wedi’u hawdurdodi.

Rydym ni’n gofyn i chi:

- ddarparu gwybodaeth gywir i ni; a
- rhoi gwybod i ni cyn gynted â phosibl am unrhyw newidiadau neu os byddwch chi'n sylwi ar gamgymeriadau yn yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi.

Os byddwch chi’n gwneud cais, byddwn ni’n rhannu peth o'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu gydag aelodau'r panel dethol ar gyfer y swydd rydych chi'n ymgeisio amdani, fel y gellir asesu'ch CV a'ch llythyr ategol.

Ni fydd eich gwybodaeth amrywiaeth yn cael ei defnyddio yn y broses ddethol ac felly ni fydd yn cael ei rhannu gyda'r Panel Asesu Cynghorol sy'n asesu'ch cais ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, gall paneli adolygu'r ymateb gweithgarwch gwleidyddol yn ystod y cyfweliad. Nid yw hyn mewn unrhyw ffordd yn rhwystro penodiadau. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i’w gweld yn y ffurflen Monitro atodedig.

Mae'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn rheoleiddio ac yn monitro penodiadau i gyrff cyhoeddus i sicrhau bod y gweithdrefnau'n deg. Mae'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r ASB gadw gwybodaeth am y bobl sy'n gwneud cais am benodiadau cyhoeddus o fewn ei chylch gwaith a sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael i’r Comisiynydd at ddibenion archwilio, os gofynnir iddi wneud hynny. Felly, mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir gennych chi yn eich cais ar gael i'r Comisiynydd

Penodiadau Cyhoeddus ac archwilwyr y Comisiynydd yn gyfrinachol er mwyn helpu i gyflawni naill ai rôl ymchwilio cwynion ffurfiol y Comisiynydd neu at ddibenion archwilio.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad

Mae'r ASB yn gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo amrywiaeth ac wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

Mae'r Asiantaeth yn ymrwymo i benodi pobl anabl. I ddangos ein hymrwymiad rydym ni'n defnyddio'r Symbol Anabledd, a ddyfernir gan y Gwasanaeth Cyflogaeth. Drwy ddefnyddio'r symbol, rydym ni'n gwarantu cyfweliad i'r rheiny sydd ag anabledd lle mae eu cais yn **bodloni'r meini prawf hanfodol** ar gyfer y swydd.

Beth ydym ni'n ei olygu wrth anabledd?

I fod yn gymwys ar gyfer y Cynllun Gwarantu Cyfweliad mae'n rhaid bod gennych chi anabledd neu gyflwr iechyd tymor hir sy'n eich rhoi dan anfantais sylweddol wrth sicrhau neu gadw swyddi/penodiadau. Gallai'r anabledd fod yn gorfforol, yn synhwyraidd neu'n feddyliol a rhaid disgwyl iddo bara am o leiaf 12 mis. Nid oes rhaid i chi fod wedi'ch cofrestru fel person anabl i wneud cais o dan y cynllun hwn.

Sut mae gwneud cais?

Ewch ati i lenwi'r datganiad isod a'i anfon gyda'ch cais.

Os oes angen unrhyw help arnoch i lenwi'r ffurflen hon neu os hoffech ei chael mewn fformat arall e.e. Braille, tâp, print bras ac ati, cysylltwch â'r person a nodir ar y ffurflen gais/hysbyseb.

Cofiwch lenwi'r manylion uchod os bydd angen unrhyw gymorth arnoch chi yn y cyfweliad.

Datganiad

Rwy'n ystyried fy hun ag anabledd fel y diffinnir uchod a hoffwn wneud cais o dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad.

Enw: Dyddiad:

CYMORTH YN Y CYFWELIAD

Enw:

Mae'r ASB yn gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo amrywiaeth ac wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

Er mwyn sicrhau nad ydym ni'n creu unrhyw rwystrau yn ein proses ddethol, rhowch wybod i ni a hoffech i ni ddarparu unrhyw gymorth penodol ar gyfer eich cyfweliad, er enghraifft:

Ticiwch bob un sy'n berthnasol

- ☐ Dolen sain *(induction loop)*
- ☐ Dehonglydd iaith arwyddion (math)
- ☐ Allweddell ar gyfer profion ysgrifenedig
- ☐ Rhywun gyda chi yn y cyfweliad (e.e. hwylusydd lleferydd)
- ☐ Rhywle i barcio eich car
- ☐ Cymorth wrth fynd i mewn neu allan o gerbyd
- ☐ Mynediad i gadair olwyn
- ☐ Cyfleusterau toiled hygyrch
- ☐ Cymorth arall (nodwch)

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am eich anghenion penodol yn y cyfweliad neu os hoffech chi roi rhagor o wybodaeth i ni, cysylltwch â'r person a nodir ar y ffurflen gais/hysbyseb.

Ffurflen Amrywiaeth a Monitro

Gwneir penodiadau cyhoeddus yn ôl teilyngdod yn unol â Chod Llywodraethu Swyddfa'r Cabinet a'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ar Benodiadau Cyhoeddus. Trwy lenwi'r ffurflen monitro amrywiaeth ynghlwm, byddwch chi'n ein helpu ni i gyflawni ein dyletswydd cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2012 ac adran 75 o Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

Bydd eich data personol bob amser yn cael ei drin yn gyfrinachol a phan fydd yn cael ei gyfuno'n ddienw â data gan ymgeiswyr eraill bydd yn helpu i lunio Bwletin Ystadegol Blynyddol y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

Ni fydd y Panel Asesu Cynghorol sy'n asesu eich cais yn gweld yr wybodaeth amrywiaeth a ddarperir gennych.

Cyhoeddi gwybodaeth fonitro

Mae'r ASB yn cyhoeddi manylion yr holl benodiadau cyhoeddus ar wefan gov.uk ac mae'n rhaid i ni gynnwys gwybodaeth am eich gweithgarwch gwleidyddol. Yn ogystal, mae'n rhaid i ni ddarparu gwybodaeth ddienw i'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ac efallai y gofynnir i ni hefyd ddarparu gwybodaeth ddienw ar ffurf gryno yn unig, mewn ymateb i Gwestiynau Seneddol ac ymholiadau cyhoeddus eraill.

Yn unol â pholisi'r Llywodraeth, ac yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 2018, bydd yr wybodaeth a roddwch yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Trwy ddarparu gwybodaeth, rydych chi'n cydsynio i'r Adran ei defnyddio at y dibenion uchod; fodd bynnag **ni fydd** unigolion yn cael eu hadnabod.

Mae gwybodaeth am weithgarwch gwleidyddol yn bennaf at ddibenion monitro yn unig. Fodd bynnag, os ydych ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, bydd yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda'r panel dethol. Mae hyn oherwydd ein bod ni'n deall y gall gweithgareddau o'r fath fod wedi rhoi i chi sgiliau perthnasol, gan gynnwys profiad a gafwyd o waith pwyllgor, gwneud penderfyniad ar y cyd, datrys gwrthdaro a siarad cyhoeddus. Os ydych chi wedi cael profiad o'r fath a'ch bod yn ei ystyried yn berthnasol i'ch cais am y swydd hon, dylech hefyd achub ar y cyfle i'w gynnwys ar wahân yn eich datganiad ategol. Fodd bynnag, os yn bosibl, ni ddylech nodi'r blaid wleidyddol berthnasol yn eich datganiad.

Penodiadau Cyhoeddus: digwyddiadau a swyddi gwag
O bryd i'w gilydd, bydd Swyddfa'r Cabinet yn trefnu digwyddiadau y gellir gwahodd ymgeiswyr penodiadau cyhoeddus iddynt. Gall Swyddfa'r Cabinet ac adrannau eraill y llywodraeth hefyd ofyn i'r ASB am fanylion cyswllt ymgeiswyr a allai fod â sgiliau addas i wneud cais am benodiadau eraill.

Os ydych chi'n gwneud cais am rôl, ewch ati i ateb bob cwestiwn ar wahân i 12.1 a 13.1. Os ydych chi'n llenwi'r ffurflen gais hon i gael eich ailbenodi, yna atebwch bob cwestiwn ar wahân i gwestiwn 14. Ni fydd y panel sy'n ystyried eich cais yn gweld eich ymatebion i adrannau 1-9.

1. **Caniatâd**

Ticiwch y blwch perthnasol i ddangos a ydych chi'n caniatáu i'ch manylion cyswllt gael eu rhannu at ddibenion Penodiadau Cyhoeddus ai peidio. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau a swyddi gwag fel y disgrifir ar dudalen un uchod.

Rwy'n rhoi caniatâd ☐
Nid wyf yn rhoi caniatâd ☐

2. Rhywedd

Beth yw eich rhywedd?

☐ Benyw ☐ Gwryw
☐ Mae'n well gen i ddisgrifio fy hun fel cliciwch yma i nodi testun.
☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

3. Anabledd

Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?

☐ Nac ydw
☐ Ydw
☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

Os ydych chi'n anabl ac yn cael budd-daliadau dylech fod yn ymwybodol, o dan y rheoliadau cyfredol, os cewch dâl am benodiad y gallai effeithio ar eich hawl.

4. Ethnigrwydd

Beth yw eich grŵp ethnig?
Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio'ch grŵp ethnig neu'ch cefndir yn fwyaf cywir

Gwyn
☐Saesnig / Cymreig / Albanaidd / Gwyddelig / Prydeinig
☐ Gwyddeleg
☐ Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig
☐ Unrhyw gefndir Gwyn arall, *disgrifiwch* Cliciwch yma i nodi testun.

Grwpiau ethnig Cymysg/Lluosog
☐ Gwyn a Du Caribïaidd
☐ Gwyn a Du Affricanaidd
☐ Gwyn ac Asiaidd
☐ Unrhyw gefndir ethnig Cymysg/Lluosog arall, *disgrifiwch* Cliciwch yma i nodi testun.

Asiaidd/Prydeinig Asiaidd
Indiaidd
Pacistanaidd
Bangladeshaidd
Tsieineaidd
☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall, *disgrifiwch* Cliciwch yma i nodi testun.

Du Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig
☐ Affricanaidd
☐ Caribïaidd
☐ Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall, *disgrifiwch* Cliciwch yma i nodi testun.

Grŵp ethnig arall
☐ Arabaidd

☐ Unrhyw grŵp ethnig arall, *disgrifiwch* Cliciwch yma i nodi testun.

Mae'n well gen i beidio â dweud
☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

5. *Oedran*

Beth oedd eich grŵp oedran ar eich pen-blwydd diwethaf?

☐ 16-24
☐ 25-34
☐ 35-44
☐ 45-54
☐ 55-64
☐ 65-74
☐ 75-84
☐ 85 neu hŷn
☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

6. *Cyfeiriadedd Rhywiol*

Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?

☐ Deurywiol ☐ Hoyw neu lesbiaidd ☐ Heterorywiol ☐ Arall ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

7. Crefydd neu gred

Beth yw eich crefydd neu gred?

☐ Bwdhaidd ☐ Cristion ☐ Hindw ☐ Iddewig ☐ Mwslim ☐ Sikh
☐ Arall ☐ Dim yn grefyddol na'n anffyddiwr ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

8. Prif Breswylfa

Pa ardal yw eich prif breswylfa?

☐ Gogledd Ddwyrain Lloegr ☐ Gogledd Orllewin Lloegr ☐Swydd Efrog a Glannau Humber
☐ Dwyrain Canolbarth Lloegr ☐ Gorllewin Canolbarth Lloegr ☐ Dwyrain Lloegr
☐ Llundain ☐ De Ddwyrain Lloegr ☐ De Orllewin Lloegr
☐ Cymru ☐Yr Alban ☐Gogledd Iwerddon
☐ Arall ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

9. Cefndir Proffesiynol

Ticiwch y blwch sector galwedigaethol sy'n disgrifio'ch prif gyflogaeth orau, os o gwbl:

☐ y Gwasanaeth Sifil yn bennaf ☐ Sector Preifat yn bennaf ☐ Trydydd Sector yn bennaf
☐ Sector Cyhoeddus ehangach yn bennaf ☐ Cymysg ☐ Arall
☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

10. Penodiadau cyhoeddus

Mae hyn yn cynnwys yr holl gyrff cyhoeddus anadrannol, cyrff GIG, byrddau parôl a chynghorau ymchwil. **Nid yw'n** cynnwys bod yn llywodraethwr ysgol, bod yn ynad nac unrhyw swyddi o fewn elusennau.

Faint o benodiadau cyhoeddus eraill sydd gennych chi ar hyn o bryd?

☐ 0 ☐ 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ 4 ☐ 5-9 ☐ 10 neu fwy ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

Dim ond yr wybodaeth a ddarperir yn adrannau 10 (Gweithgarwch Gwleidyddol), 11 (Gwrthdaro Buddiannau) a 12 (safonau mewn bywyd cyhoeddus) isod fydd ar gael i'r panel os cewch wahoddiad am gyfweliad.

11. Gweithgarwch Gwleidyddol Sylweddol

Diffinnir gweithgarwch gwleidyddol sylweddol fel cael eich cyflogi gan blaid wleidyddol, dal swydd sylweddol mewn plaid, sefyll fel ymgeisydd ar gyfer plaid mewn etholiad, siarad yn gyhoeddus ar ran plaid wleidyddol neu roi rhoddion neu fenthyciadau sylweddol i blaid. Benthyciadau a rhoddion sylweddol yw'r rhai o faint a adroddir i'r Comisiwn Etholiadol, yn unol â throthwy adrodd plaid ganolog*****. **(* £7.5 mil neu fwy yn ystod y 5 mlynedd diwethaf i blaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru ym Mhrydain**)

A ydych chi wedi ymgymryd ag unrhyw weithgarwch gwleidyddol sylweddol i blaid wleidyddol yn ystod y pum mlynedd diwethaf?

☐ Do
☐ Naddo

Os do, nodwch ar gyfer pa barti/partïon:

Parti/Partïon Cliciwch yma i nodi testun.

12. Gwrthdaro Buddiannau

Os oes gennych chi unrhyw fuddiannau a allai fod yn berthnasol i waith y Bwrdd/Pwyllgor ac a allai arwain at wrthdaro buddiannau go iawn neu y gellir eu hystyried yn wrthdaro buddiannau pe byddech yn cael eich penodi, rhowch fanylion cryno isod. Gellir rhannu'r wybodaeth hon â Swyddfa'r Cabinet yn unol ag Adran 9.1 Cod Llywodraethu Penodi Cyhoeddus 2017.

A ydych chi'n ystyried bod gennych chi buddiannau sy'n gwrthdaro go iawn neu y gellir ystyried bod gwrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r rôl hon?

☐Oes
☐ Nac oes

Os oes, rhowch fanylion cryno yma a manylion pellach yn eich llythyr ategol: Cliciwch yma i nodi testun.

> **12.1 - Os yw'n ailbenodiad neu'n estyniad** – Pe byddech chi'n cael eich ailbenodi neu'n cael estyniad, a oes unrhyw buddiannau newydd a allai wrthdaro, gwirioneddol neu bosibl yn debygol o godi? Os felly, rhowch fanylion cryno isod gan gynnwys sut mae'r gwrthdaro gwirioneddol neu bosibl yn cael ei reoli (e.e. trwy osgoi trafodaethau ar rai materion) Cliciwch yma i nodi testun.

13. Safonau mewn bywyd cyhoeddus a sicrhau hyder y cyhoedd

A oes unrhyw faterion yn eich hanes personol neu broffesiynol (gan gynnwys unrhyw gollfarnau neu fethdaliadau), neu ddatganiadau cyhoeddus a wnaethoch, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasu, y gellid, pe byddech chi'n cael eich penodi, eu camddehongli, achosi embaras i Weinidogion, yr ASB neu beryglu hyder y cyhoedd yn ehangach?

☐ Nac oes
☐ Oes

Os oes, rhowch fanylion cryno yma a manylion pellach yn eich llythyr ategol Cliciwch yma i nodi testun.

Sylwch y gellir trafod unrhyw fuddiannau neu faterion ymddygiad y manylir arnynt yma gyda chi yn ystod eich cyfweliad i ddarganfod sut y byddech chi'n mynd i'r afael â'r mater(ion) pe byddech chi'n cael eich penodi.

13.1 - Os yw'n ailbenodiad neu'n estyniad - fel y gwyddoch, o ystyried natur penodiadau cyhoeddus, mae'n bwysig bod y rheiny a benodir i gyrff cyhoeddus yn cynnal hyder y cyhoedd a'r Llywodraeth. Os oes unrhyw faterion yn eich hanes personol neu broffesiynol y gellid, pe byddech chi'n cael eich ailbenodi, eu camddehongli, achosi embaras i Weinidogion, yr ASB neu beryglu hyder y cyhoedd yn ehangach, mae'n bwysig eich bod chi'n rhoi gwybod i ni amdanynt. Byddai hyn felly'n cynnwys unrhyw faterion sydd wedi codi ers i chi gael eich penodi gyntaf, gan gynnwys unrhyw gollfarnau neu fethdaliadau. Wrth ystyried a ydych chi'n dymuno datgan unrhyw faterion, dylech hefyd ystyried unrhyw ddatganiadau cyhoeddus a wnaethoch, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasu.

Gallai methu â datgelu gwybodaeth o'r fath arwain at derfynu ailbenodiad
gan fod disgwyl i'r rhai sy'n dal penodiadau cyhoeddus ddangos y safonau uchaf o ymddygiad corfforaethol a phersonol ac mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â'r *Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus,* wrth gytuno i'r telerau ac amodau penodi. Gallwch chi weld y ddogfen hon drwy: https://www.gov.uk/government/publications/board-members-of-public-bodies-code-of-conduct

A oes gennych chi unrhyw faterion i'w datgan?

☐ Nac oes
☐ Oes *Os mai 'oes' yw'r ateb, nodwch y manylion:* Cliciwch yma i nodi testun.

14. Recriwtio

Er mwyn ein helpu i dargedu ein gweithgarwch recriwtio a hysbysebu swyddi yn effeithiol yn y dyfodol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech chi roi gwybod i ni sut y gwnaethoch chi ddod o hyd i'r swydd hon gyntaf:

☐ Gwefan Corff neu Bwyllgor 'hyd braich'
☐ Gwefan Swyddfa'r Cabinet
☐ Cyfrif Twitter yr ASB
☐ Tudalen LinkedIn yr ASB
☐ Rhwydweithiau neu Rywun wedi Argymell y Swydd
☐ Papur Newydd/Cyfnodolyn (ar-lein)
☐ Arall (gan gynnwys unrhyw wefan arall, cyfryngau cymdeithasu), nodwch: Cliciwch yma i nodi testun.

15. Anghymhwyso rhag penodi

Cyfeiriwch at y meini prawf anghymhwyso sydd wedi'u nodi yn y pecyn gwybodaeth. Ydych chi wedi'ch gwahardd rhag cael eich penodi ar hyn o bryd?

☐Ydw
☐ Nac ydw

Os mae 'ydw' yw eich ateb, a bod hyn o ganlyniad i rôl arall sydd gennych chi, rhowch fanylion cryno yma a manylion pellach yn eich llythyr ategol.

Pe byddech chi'n cael cynnig y rôl rydych chi'n ymgeisio amdani, a fyddech chi'n barod i sefyll i lawr o'r swydd sy'n eich anghymhwyso rhag cael eich penodi?

☐ Byddwn
☐ Na fyddwn

Datganiad

Rwy'n datgan bod yr wybodaeth a gyflenwir yn fy nghais, gan gynnwys unrhyw gyfeiriad at wrthdaro buddiannau a'm hymddygiad personol, yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwyf hefyd wedi darllen y pecyn gwybodaeth a gallaf gadarnhau fy mod yn gymwys i gael fy ystyried ar gyfer cael fy mhenodi i'r corff hwn. Rwyf hefyd yn tystio y byddaf yn rhoi gwybod ar unwaith i'r ASB am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar yr atebion a roddais.

Enw'r Ymgeisydd: Cliciwch yma i nodi testun.

Dyddiad: Cliciwch yma i nodi testun.

Cesglir yr wybodaeth amrywiaeth hon gan adrannau'r llywodraeth sy'n rheoli penodiadau i fyrddau cyrff cyhoeddus, ar ran Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus (OCPA). Ni fydd y data hwn yn gysylltiedig â'ch enw pan fydd yn cael ei rannu, fe'i cyflenwir yn ddienw. Cesglir y data at ddibenion mesurau neu benderfyniadau mewn perthynas â'ch cais am benodiad cyhoeddus gan y llywodraeth.

Mae OCPA yn casglu gwybodaeth amrywiaeth er mwyn creu gwybodaeth reoli am y broses penodi cyhoeddus, ac amrywiaeth yr ymgeiswyr. Fe'i cyhoeddir ar wefan OCPA, ar ffurf gryno, er mwyn galluogi'r llywodraeth i gyflawni ei dyletswydd cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus o dan adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 ac adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

Mae'r data hwn yn cael ei gasglu a'i ddal ar y sail eich bod wedi caniatâu i ddarparu'r wybodaeth hon i adrannau ochr yn ochr â'ch cais ac nid ydych wedi rhoi rhybudd nad ydych yn dymuno i'ch data gael ei brosesu at y diben hwn.

Gall y data hwn gael ei gadw am hyd at 5 mlynedd gan OCPA, Swyddfa'r Cabinet ac Adran y Llywodraeth, sef cyd-reolwyr y data. Rhennir y data hwn â chyflenwyr TG Swyddfa'r Cabinet, a nodwyd fel proseswyr, er mwyn casglu a storio'r data yn ddiogel.

Bydd yr ASB yn cadw'ch gwybodaeth amrywiaeth a monitro am oddeutu dwy flynedd ar ôl i chi wneud cais neu ddwy flynedd ar ôl i chi orffen eich tymor ar Fwrdd neu Bwyllgor.